**LC1191**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer gwneud amryw daliadau grant i unrhyw berson sy'n ymrwymo i gytundeb gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, pan fo'r person hwnnw'n cytuno i gymryd rhan yng nghynllun amaeth-amgylcheddol Tir Cynnal.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn y testun Saesneg, mae Rheoliad 4(1) yn darparu mai un o'r amodau ar gyfer ymrwymo i Gytundeb Tir Cynnal yw "following" yr amodau a geir yn Rhannau 1, 2, 3 a 4 o'r Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'n amlwg o'r testun Saesneg bod "following" yn golygu 'to comply with' yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, yn nhestun Cymraeg rheoliad 4(2) caiff "following" ei gyfieithu fel "cydymffurfio" h.y. "to comply" a hefyd fel "dilyn" ac fel "canlynol" h.y. "next" lle y mae'n digwydd am y trydydd tro ym mharagraff (2). [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)].

Weithiau, bydd y Rheoliadau'n defnyddio termau ac ymadroddion heblaw am y term a ddiffiniwyd, sef "deiliad cytundeb Tir Cynnal" (Tir Cynnal agreement holder). Yn nhestun Cymraeg rheoliad 13(5) cyfeirir at "deiliad cytundeb" yn hytrach na "deiliad cytundeb Tir Cynnal". Mae hefyd angen cywiro'r

geiriau "eich" (yn y testun Cymraeg yn unig) ac "yr ydych" (you), "fferm" (farm) a "ffermwr" (farmer) (yn y testun Cymraeg a Saesneg) yn Rhan 2 o'r Atodlen. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Rheoliad 10 yn ymdrin â newid o ran meddiannaeth. Mae angen ailddrafftio Rheoliad 10(4) am ei fod yn awgrymu y gall deiliad cytundeb Tir Cynnal a meddiannydd newydd tir Tir Cynnal ymrwymo i gytundeb Tir Cynnal. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Gellir cywiro'r gwallau drafftio a'r anghysondebau uchod drwy Femorandwm Cywiriadau.

Nodwyd sawl gwall drafftio o dan Reol Sefydlog 11.7(v) yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Gellir cynnwys y rhain yn y Memorandwm Cywiriadau.

Yn Rhan 1 - Adran Fferm Gyfan:-

- Ceir dau amod o dan y pennawd 'Mynediad i'r Cyhoedd'; mae'r ail gofnod yn ailadrodd ail bwynt bwled y cofnod cyntaf. Nid oes angen hyn a dylid ei ddileu.

Yn Rhan 2 - Cynefinoedd Bywyd Gwyllt:-

- Ym mharagraff agoriadol y testun Cymraeg mae'r geiriau "ar eich tir" (on your land) yn amhriodol i'w defnyddio mewn offeryn statudol a dylid rhoi geiriau addas yn eu lle. Mae'r testun Saesneg yn defnyddio "the agreement land" sy'n ymadrodd mwy priodol a dylid diwygio'r testun Cymraeg yn unol â hynny.
- Ym mharagraff olaf y testun Cymraeg, mae angen cyfeiriad at gynefinoedd bywyd gwyllt.
- O dan y pennawd "Diogelu Cynefinoedd Bywyd Gwyllt - Amodau" dylid dileu'r geiriau "Mae Tir Cynnal yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf 5% o'r tir o dan gytundeb Tir Cynnal yn cael ei ddosbarthu'n gynefin bywyd gwyllt ac yn cael ei warchod rhag niwed" am eu bod yn amhriodol mewn offeryn statudol, er y byddent yn addas mewn llyfryn esboniadol sy'n ategu ffurflen gais ac i bob pwrpas, maent yn dyblygu'r amod a nodwyd ar ddechrau Rhan 2.
- Ym mhob enghraifft lle y mae'n digwydd, dylid dileu "(cyfeirir at y rhagnodau diogelu cynefin bywyd gwyllt yn Rhan 2)".
- Yn nhestun Cymraeg 'rhagnodau ar gyfer gadael lleiniau ymyl heb eu torri ar dir grawnfwydydd' mae yna gyfeiriad diangen at "rheol 5%" ar ddiwedd yr ail bwynt bwled a dylid ei ddileu.

Yn Rhan 3 - Cynllun Rheoli Adnoddau Fferm:-

- Yn y testun Saesneg, dylid dileu'r paragraff sy'n dechrau gyda'r geiriau "Preparing the farm resource management plan" am ei fod yn esboniadol ac nid oes iddo unrhyw ddiben deddfwriaethol.

## Sylwadau

Mae'n amlwg bod anawsterau yn y feddalwedd ddrafftio wedi creu gwallau yn y rhifau a'r llythrennau yn y testun Cymraeg. Gellir cywiro'r rhain wrth eu cyhoeddi.

Mae fformat yr Atodlen yn anarferol am fod y rhannau gwahanol wedi'u nodi gyda phenawdau a phwyntiau bwled yn hytrach na pharagraffau â rhifau (a/neu lythrennau); mae'n debyg i lyfryn esboniadol a fyddai'n ategu ffurflen gais. O gofio bod rheoliad 4 yn esbonio bod yr Atodlen yn cynnwys pedwar amod y dylid eu dilyn os penderfynir ymrwymo i gytundeb Tir Cynnal a bod cyd-destun yr amodau hyn yn gyfarwydd i'r gynulleidfa darged, nid oes angen cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd i ddiwygio'r fformat hwn. Fodd bynnag, os caiff y ddeddfwriaeth ei diwygio rywbryd yn y dyfodol, dylid ailddrafftio'r Atodlen.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 6 Rhagfyr 2005